


# Tir cyffredin:

## Archwilio aliniad ymarfer gwaith chwarae a gwaith ieuenctid yng Nghymru

## Diolchiadau

Comisiynwyd yr ymchwil hwn gan Chwarae Cymru a'i gyflawni gan Alex Drury a Mandy Robbins o Brifysgol Wrecsam, a'i gynorthwyo gan Jane Hawkshaw o Chwarae Cymru.

Hoffai'r ymchwilwyr fynegi eu diolch diffuant i'r holl gyfranogwyr am roi o'u hamser gwerthfawr a'u dirnadaeth werthfawr i'r ymchwil hwn.


### Awduron: Alex Drury a'r Athro Mandy Robbins PhD, SFHEA

Mae **Alex** yn Gynorthwyydd Ymchwil ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae'n weithiwr ieuenctid a gweithiwr chwarae cymwysedig gyda gradd MA mewn Astudiaethau Ieuenctid a Chymunedol. Cyn dod yn Gynorthwyydd Ymchwil, gweithiodd Alex yn y trydydd sector am 15 mlynedd yn gwneud gwaith ieuenctid, gwaith chwarae a datblygu cymunedol. Roedd ei chyfrifoldebau hefyd yn cynnwys cefnogi cyfranogiad cymunedol, sicrhau ariannu a chefnogi datblygu sefydliadau. Bu hefyd yn gydlynydd i Bartneriaeth Ieuenctid a Chwarae Wrecsam am bum mlynedd. Yn 2024, roedd yn ymchwilydd ar Adolygiad o Gyllid Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru, wnaeth fapio ffynonellau ariannu gwaith ieuenctid ac archwilio oblygiadau'r model ariannu cyfredol.

Mae **Mandy** yn Ddeon Cyswllt (Ymchwil) ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae'n Seicolegydd Siartredig ac yn aelod o Gymdeithas Seicolegol America. Cyn ei phenodiad yn Wrecsam, fe weithiodd ym mhrifysgolion Warwick, Bangor a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Gwasanaethodd Mandy am chwe blynedd fel un o lywodraethwyr Coleg George Williams yr YMCA. Yn ddiweddar, bu'n rhan o'r tîm ymchwil gwblhaodd Adolygiad o Gyllid Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Mae'n eistedd ar fwrdd golygyddol y *British Journal for Religious Education*, ac mae'n Olygydd Cyswllt y *Journal of Empirical Theology*. Mae'n awdur pump o lyfrau a thros 200 o benodau ac erthyglau.

**Nodyn:** lluniwyd y crynodeb gweithredol gan Chwarae Cymru


ISBN: 978-1-914361-27-2



© Chwarae Cymru



Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF.



Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.



www.chwarae.cymru

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol 4

Cyflwyniad a chyd-destun 4

Cefndir 4

Methodoleg 6

Nodyn ar derminoleg 7

Canfyddiadau 7

Cardiau adroddiad 8

Dadansoddiad thematig 14

Buddiannau 14

Ymateb i anghenion 14

Cysondeb (fel oedolion y gellir ymddiried ynddynt) 15

Croes-beillio 16

Heriau 17

Sail athronyddol 17

Hyfforddiant 18

Ffactorau allanol 19

Casgliad 22

Argymhellion 23

Cyfeiriadau 24

# Crynodeb gweithredol

**Mae'r adroddiad ymchwil hwn, a gomisiynwyd gan Chwarae Cymru, yn archwilio aliniad ymarfer gwaith chwarae a gwaith ieuenctid ar draws Cymru. Mae'n tynnu sylw at enghreifftiau o ymarfer wedi ei alinio mewn awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector, gan bwysleisio buddiannau a heriau arddull o'r fath. Mae'r ymchwil yn anelu i hysbysu trafodaethau pellach ar aliniad strategol y ddau sector hyn er mwyn cyfoethogi trosglwyddo gwasanaethau ar gyfer plant.**

**Mae'r canfyddiadau'n datgelu y gall ymarferion wedi eu halinio arwain at wella trosglwyddiad gwasanaethau, gwell dealltwriaeth ynghylch anghenion plant a pherthnasau cryfach rhwng ymarferwyr a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â heriau megis gwahanol egwyddorion, gofynion hyfforddiant a ffactorau allanol fel ariannu ac aliniad polisi er mwyn mwyafu buddiannau'r arddull hwn.**

**Mae'r adroddiad yn cloi gydag argymhellion yr ymchwilwyr ar gyfer arweinyddion strategol, darparwyr hyfforddiant a llunwyr polisïau i gefnogi datblygiad ymarferion sydd wedi'u halinio a chyfoethogi effeithlonrwydd cyffredinol gwaith chwarae a gwaith ieuenctid yng Nghymru.**

## Cyflwyniad a chyd-destun

Mae nifer cynyddol o sefydliadau ledled Cymru sydd â rhyw lefel o aliniad yn eu cynllunio neu eu trosglwyddiad o waith chwarae a gwaith ieuenctid. Ceir hyd i'r gwasanaethau aliniedig hyn mewn awdurdodau lleol yn ogystal â sefydliadau trydydd sector. Ceir enghreifftiau sy'n amrywio o sefydliadau ble mae gweithwyr chwarae a gweithwyr ieuenctid wedi rhannu rheolwyr a/neu gynlluniau hyfforddi a rennir i sefydliadau sydd â gweithlu â chymwysterau deuol sy'n trosglwyddo darpariaeth diasiad mewn lleoliadau a rennir.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gomisiynu gan Chwarae Cymru, a'i gwblhau gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Wrecsam a Chwarae Cymru, i archwilio a rhannu rhai enghreifftiau o sut a ble y mae'r aliniad yma'n digwydd. Mae'n anelu hefyd i danlinellu rhai o fuddiannau a heriau arddull wedi ei alinio ac i ddeall profiadau ymarferwyr sy'n gweithio fel hyn. Trwy ddogfennu'r enghreifftiau hyn, rydym yn gobeithio y byddant yn hysbysu trafodaeth bellach ar aliniad strategol gwaith chwarae a gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn anelu hefyd i fod o fudd i ymarferwyr gwaith ieuenctid yn ogystal â gwaith chwarae wrth iddynt fyfyrio ar gyd-destun eu hymarfer. Rydym yn rhagweld hefyd y bydd rheolwyr gwasanaeth, arweinyddion strategol a llunwyr polisi, yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystyried bod yr adroddiad hwn o fudd wrth gynnal dealltwriaeth am ymarfer cyfredol yng Nghymru.

### Cefndir

Mae Chwarae Cymru'n diffinio gwaith chwarae fel 'y gelfyddyd o weithio gyda phlant sy'n chwarae'.[1] Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae[2] yn nodi angen greddfol plant i chwarae, natur dewis o wirfodd chwarae, rôl y gweithiwr chwarae wrth eiriol dros, ac ehangu, chwarae plant yn ogystal â deall a blaenoriaethu'r broses chwarae. Mae gwaith chwarae'n cydnabod hawl plant i gael mynediad i gyfleoedd cyfoethog i chwarae, fel y diffinnir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[3] a'r eglurhad croyw yn Sylw Cyffredinol rhif 17.[4] Mae'r arddull gwaith chwarae'n canolbwyntio ar blant fel y maent yn awr, ac nid ar yr hyn y gallent fod yn nes ymlaen.

Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cael ei ddiffinio hefyd gan gasgliad cytûn o egwyddorion – Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion[5] – sy'n canolbwyntio ar rymuso a datblygu pobl ifanc, trwy berthynas wirfoddol sy'n cychwyn ble bynnag y mae pobl ifanc yn eu bywydau ac sy'n cydnabod eu potensial.[6] Mae gwaith ieuenctid yn anelu i gefnogi

pobl ifanc i arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau ac mae'n anelu i fod yn addysgol, mynegiannol, cyfranogol, cynhwysol a grymusol. Yn yr un modd â gwaith chwarae, mae gwaith ieuenctid yn ymgysylltu â'r person ifanc yn y fan a'r lle ond mae'n ymwneud hefyd â pherson ifanc y dyfodol a sut ellir eu cefnogi i gyflawni eu potensial.

Yn 2021, yn eu hadroddiad terfynol,[7] dynododd Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru yr angen am fodel mwy cynaliadwy a theg ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mewn ymateb i argymhelliad 2 yr adroddiad hwn (y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu sylfaen deddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru), yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith statudol drafft ar gyfer gwaith ieuenctid sy'n diffinio pobl ifanc yn benodol fel rhai rhwng 11 a 25 oed ac sy'n cynnwys diffiniad o waith ieuenctid fel:

> 'gwasanaethau a ddarperir o fewn y gwasanaeth cymorth ieuenctid gan ddefnyddio dull addysgol neilltuol sy'n seiliedig ar ymgysylltiad gwirfoddol gan bobl ifanc, ac sy'n cael ei gyflenwi gan bersonau sy'n meddu ar gymhwyster gweithiwr ieuenctid neu gymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid'.[8]

Darparwyd y diffiniad hwn mewn ymateb i alwadau am eglurder o'i gymharu â gwasanaethau sy'n 'gweithio gyda phobl ifanc' ac i sicrhau bod 'natur neilltuol [gwaith ieuenctid] yn cael ei ddeall a'i ddiogelu'n well'.[9]

Mae gwaith chwarae a gwaith ieuenctid ill dau'n wasanaethau sydd heb eu deall yn dda iawn, yn enwedig wrth gydweithio gyda phroffesiynau eraill, ac yn aml cânt eu drysu gyda gwaith arall gyda phlant a phobl ifanc.[10]

Mae natur unigryw pob un yn cael ei amddiffyn yn falch ac mae'r ddau broffesiwn yn dilyn ei Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ei hun, ond eto mae gorgyffwrdd hefyd yn eu hegwyddorion allweddol ac ym meysydd diddordeb cyffredin y ddau.

Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae[11] yn cydnabod yn benodol weithwyr ieuenctid fel rhan o'r gweithlu chwarae ehangach, gan gydnabod ei fod yn broffesiwn sy'n effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae, ac mae'n annog ymgysylltiad ar draws y proffesiynau. Mae'r adolygiad yn galw hefyd am fwy o aliniad deddfwriaethol a 'gwell cydweithrediad ar draws y sectorau gwaith ieuenctid a gwaith chwarae ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol'.[12]

Mae'n cyfeirio'n benodol at Adroddiad Terfynol Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru[13] fel dogfen bwysig sydd â'r potensial i effeithio ar hawl plant i chwarae ac mae'n cyfeirio at rai meysydd allweddol o ddiddordeb cyffredin rhwng y galwedigaethau, megis cyfiawnder gofodol mewn cymunedau. Mae'r mater hwn yn 'tyfu'n gynyddol bwysig wrth i blant fynd yn hŷn'[14] ac mae anghenion chwarae plant hŷn[15] yn arbennig o berthnasol i'r ddau broffesiwn.

*Cymru Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae*[16] yw'r canllawiau statudol sy'n amlinellu'r gofynion ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal, ac wrth wneud hynny, ystyried 'i ba raddau y mae Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn rhoi cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasu'.

Galwodd argymhelliad 5 Adroddiad Terfynol Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru ar i Lywodraeth Cymru 'sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru'[17] ac, yn 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gynlluniau i wneud hyn, gan ddatgan gobaith y byddai hyn yn cefnogi cydweithio.[18]

Mae'r cyd-destun hwn wedi creu adeg amserol i archwilio enghreifftiau o ymarfer wedi ei alinio yng Nghymru. Y nod yw deall nodweddion ymarfer wedi ei alinio sy'n bodoli eisoes a phrofiadau'r ymarferwyr sy'n rhan o'i gyflawni.

# Methodoleg

Er mwyn ennyn y wybodaeth drwyadl a chyd-destunol oedd ei hangen ar gyfer yr adroddiad hwn, mabwysiadwyd dull ymchwil ansoddol.[19] Darparodd y dull hwn y cyfle i'n cyfranogwyr fynegi, yn eu geiriau eu hunain, eu profiad o aliniad o ran trosglwyddo gwaith chwarae a gwaith ieuenctid yn eu cyd-destunau eu hunain gan ddarparu cyfoeth o ddealltwriaeth. Fe wnaethom gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig gydag ymarferwyr unigol, rheolwyr gwasanaeth, ac arweinyddion strategol yn y sectorau gwaith ieuenctid a gwaith chwarae er mwyn sicrhau ehangder profiad a dealltwriaeth o'r cyd-destun cyfredol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Defnyddiodd yr ymchwil ddull samplu bwriadus/detholus.[20] Mae hyn yn golygu bod y sefydliadau y gwnaethom eu gofyn i gymryd rhan yn seiliedig ar enghreifftiau yr oeddem yn gwybod amdanynt o wybodaeth yr ymchwilwyr a Chwarae Cymru o'r sector eisoes. Anelodd i gynnwys sefydliadau allai weithredu fel enghreifftiau o ymarfer wedi ei alinio gyda chymaint o amrywiaeth â phosibl yn y mathau o aliniad a'u cyd-destun. Ni ddewiswyd sefydliadau heb unrhyw aliniad. Fodd bynnag, cyfwelwyd pedwar partner lefel strategol sydd ddim yn trosglwyddo hefyd er mwyn darparu safbwynt strategol i'r ymchwil. Roedd y pedwar unigolyn hwn yn cynrychioli tri chorff anllywodraethol: Chwarae Cymru, Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru Wales) a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS).

| Math o sefydliad | Nifer y sefydliadau | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|---|
| Strategol | 3 | 4 |
| Gweithredol | 6 | 8 |
| **Cyfanswm** | **9** | **12** |

**Tabl 1a: Sampl yn ôl math o sefydliad: strategol neu weithredol**

| Math o sefydliad | Nifer y sefydliadau | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|---|
| Awdurdod lleol | 2 | 4 |
| Trydydd sector | 4 | 4 |
| Corff anllywodraethol | 3 | 4 |
| **Cyfanswm** | **9** | **12** |

**Tabl 1b: Sampl yn ôl math o sefydliad: awdurdod lleol/trydydd sector/corff anllywodraethol**

Fe siaradom gydag wyth o gyfranogwyr o chwe sefydliad gwaith ieuenctid a gwaith chwarae gweithredol wnaeth weithredu fel enghreifftiau o ryw lefel o ymarfer wedi ei alinio. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
- Gwasanaeth Ieuenctid a Chwarae Cyngor Dinas Casnewydd
- RAY Ceredigion
- Seren in the Community
- Plant y Cymoedd
- Tîm Cymorth Chwarae ac Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r ymchwilwyr yn ymwybodol o enghreifftiau eraill o ymarfer wedi ei alinio yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oedd yn fwriad i'r ymchwil yma gasglu rhestr gyflawn, ond yn hytrach i gyflwyno ambell i esiampl enghreifftiol, yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol allweddol a phrofiadau ymarferwyr.

| Cefndir proffesiynol hunangofnodedig | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|
| Gwaith ieuenctid yn unig | 3 |
| Gwaith chwarae yn unig | 2 |
| Gwaith ieuenctid a gwaith chwarae hefyd | 6 |
| Yr un o'r ddau | 1 |

**Tabl 2: Cefndir proffesiynol hunangofnodedig**

## Nodyn ar derminoleg

Tra bo gwaith ieuenctid yn digwydd mewn nifer o gyd-destunau, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid cyffredinol, yn y gymuned, oherwydd mai dyma ble bydd gweithwyr ieuenctid a gweithwyr chwarae'n rhyngweithio fwyaf, fel arfer, ac o ganlyniad dyma ble y gellir cael hyd i enghreifftiau o ymarfer wedi ei alinio.

Rydym wedi defnyddio'r term 'plant hŷn' yn hytrach na 'phobl ifanc' i ddisgrifio'r rheini sydd, yn fras, rhwng 11 ac 16 oed. Mae llawer o'r cyfranogwyr, yn enwedig y rheini sydd â chefndir gwaith ieuenctid, wedi defnyddio'r term 'pobl ifanc', ac rydym wedi cyflwyno eu hadroddiadau fel y'u dywedwyd wrthym. Mae'r gwahaniaeth hwn yn mynd at galon gwahanol sylfeini athronyddol y ddau broffesiwn. Am sail resymegol fanylach, gweler *Mae plant hŷn yn chwarae hefyd*.[21]

Rydym wedi dewis disgrifio'r enghreifftiau y daethom ar eu traws fel ymarfer wedi ei alinio. Gellid, ac fe wnaethpwyd, eu disgrifio hefyd fel ymarfer cydgysylltiedig, cysylltiedig, rhyng-gysylltiedig a hyd yn oed ymarfer cyfunol.

Doedden nhw fyth yn enghreifftiau o ymarfer unedig neu ymgyfunedig gan fod uniondeb pob proffesiwn unigol yn cael ei gynnal. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig, o gofio'r pryderon sy'n bodoli am allu gwaith ieuenctid a gwaith chwarae ill dau i bara'n wahanadwy oddi wrth broffesiynau eraill sy'n gweithio gyda phlant.

Cynhaliwyd y cyfweliadau gan ddau aelod o'r tîm ymchwil gan ddefnyddio cynadledda fideo Microsoft Teams. Yn dilyn y cyfweliadau, dadansoddwyd y trawsgrifiadau gan ddefnyddio dadansoddiad thematig i chwilio am themâu a phatrymau cyffredin yn yr hyn ddywedodd y cyfranogwyr.[22] Roedd trydydd aelod y tîm ymchwil, na gymerodd ran o gwbl yn y broses gyfweld, yn rhan o'r broses ddadansoddi thematig gydweithredol. Fe wnaethom fabwysiadu'r dull hwn er mwyn cyfoethogi a herio'r dadansoddi data gan leihau rhagfarn posibl a galluogi darparu gwahanol bersbectif ar y broses ddadansoddol.[23]

Fel rhan o'r dadansoddiad, fe wnaethom ddatblygu cerdyn adroddiad ar gyfer pob un o'r chwe sefydliad trosglwyddo gwaith chwarae a gwaith ieuenctid gymerodd ran yn yr ymchwil. Mae'r cardiau adroddiad hyn yn cyflwyno crynodeb am bob sefydliad a'r modd y maent wedi alinio eu hymarfer gwaith chwarae a gwaith ieuenctid yn ogystal â'r buddiannau a'r heriau y maent wedi eu profi.

## Canfyddiadau

Fe wnaethom ganfod nifer o enghreifftiau o ymarfer gwaith ieuenctid a gwaith chwarae sydd wedi eu halinio mewn gwahanol ffyrdd. Weithiau, roedd hyn yn cynnwys staff gwaith ieuenctid oedd wedi cwblhau hyfforddiant chwarae i'w helpu i ddeall anghenion chwarae plant hŷn. Ar adegau eraill, roedd hyn yn cynnwys cael gweithwyr ieuenctid mewn clybiau chwarae, cael gweithwyr chwarae'n trosglwyddo clybiau ieuenctid iau neu gael staff sydd â chymwysterau deuol i drosglwyddo darpariaeth diasiad mewn un lleoliad. Yn aml, roedd hyn yn digwydd o fewn timau cyfunol gyda rheolaeth llinell unigol.

Roedd pob un o'r enghreifftiau hyn wedi datblygu mewn cyd-destun penodol, gan ddilyn siwrnai unigryw oedd yn dibynnu'n aml ar gyfraniadau unigolion oedd yn gyrru aliniad o fewn eu sefydliad, yn seiliedig ar y buddiannau yr oeddent wedi eu gweld o'u hymarfer eu hunain.

Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno cerdyn adroddiad ar gyfer pob sefydliad enghreifftiol y siaradom â nhw, yn nodi manylion rhai o'u cyd-destunau unigryw a'u nodweddion allweddol, yn ogystal â'r manteision a'r heriau y mae'r sefydliadau hyn wedi eu hwynebu gyda'u dull nhw. Aiff yr adran hon ymlaen i gyflwyno'r dadansoddiad thematig o'r 12 cyfweliad a gynhaliwyd, gan archwilio themâu a materion llosg cyffredin a adroddwyd gan y cyfranogwyr, yn cynnwys yr arweinyddion strategol.

# Gwasanaeth Chwarae ac Ieuenctid Cyngor Dinas Casnewydd – awdurdod lleol

Cerdyn adroddiad

## Strwythur a chefndir

Cafodd y gwasanaethau gwaith chwarae a gwaith ieuenctid eu halinio gan yr awdurdod lleol yn ystod ailstrwythuro yn 2022. Roedd hwn yn benderfyniad strategol, wnaeth gydnabod rhywfaint o gydweithredu llwyddiannus ddigwyddodd dan fodel trosglwyddo gwasanaeth hwb amlddisgyblaethol lleol blaenorol.

Mae'r gwasanaeth yn eistedd o fewn adran Atal a Chynhwysiant yr awdurdod lleol ac mae'n trosglwyddo clybiau chwarae (pump i ddeuddeg oed), clybiau ieuenctid iau (deg i dair ar ddeg oed) a chlybiau ieuenctid hŷn (tair ar ddeg oed a throsodd) ar draws ardal Casnewydd. Mae'r tîm hefyd yn trosglwyddo gwasanaeth chwarae â chymorth ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol, clwb ieuenctid â chymorth, gwaith ieuenctid mewn ysgolion uwchradd a sesiynau chwarae mewn ysgolion cynradd. Mae gweithwyr chwarae a gweithwyr ieuenctid ochr yn ochr â'i gilydd mewn rhai lleoliadau ac maent, mewn nifer o achosion, yn meddu ar gymwysterau deuol.

## Nodweddion allweddol

- Penderfyniad strategol i alinio gwasanaethau wedi ei hysbysu gan arfer da yn lleol.
- Nifer dda o staff hynod brofiadol gyda chymwysterau deuol.
- Mae capasiti, arbenigedd a throsglwyddiad hyfforddiant chwarae rhagarweiniol mewnol wedi cynyddu dealltwriaeth am chwarae ar draws y gwasanaeth.

## Buddiannau

- Mae dyluniad y gwasanaeth wedi helpu gweithwyr ieuenctid i adnabod ymddygiadau chwarae ac i fabwysiadu agwedd chwareus, a hynny hyd yn oed mewn ymyriadau sydd wedi eu targedu'n fwy penodol.
- Mae'r staff yn datblygu perthnasau hirach a chryfach, gan arwain at blant hŷn yn bod yn fwy ymatebol a dangos mwy o ddiddordeb.
- Mae ymarfer cynhwysol y gweithwyr chwarae wedi 'trawsnewid' y modd y gall gweithwyr ieuenctid gefnogi plant sydd ag anghenion ychwanegol.
- Mae'r gwasanaeth sydd wedi ei alinio'n effeithiol wrth gefnogi plant trwy gyfnodau pontio.

## Heriau a dysg

- Ceir tensiwn o dro i dro rhwng arddulliau, yn enwedig o ran mesur deilliannau a sesiynau cynllunio.
- Gall trosi'r arddull trosglwyddo o waith chwarae i waith ieuenctid fod yn anodd weithiau, yn enwedig i staff sy'n darparu nifer o sesiynau'r dydd.
- Mae'r gwasanaeth yn cyflogi mwy o weithwyr ieuenctid na gweithwyr chwarae oherwydd argaeledd a ffocws yr ariannu, sydd â'r potensial i arwain at anghydbwysedd mewn darpariaeth.

# Tîm Chwarae a Chymorth Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – awdurdod lleol

### Cerdyn adroddiad

## Strwythur a chefndir

Daeth y Tîm Chwarae a Chymorth Ieuenctid ynghyd yn 2018 o ganlyniad i benderfyniad strategol gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn trosglwyddo sesiynau chwarae mynediad agored a sesiynau gwaith ieuenctid cymunedol mewn lleoliadau niferus ar hyd a lled y sir, yn aml gyda chyllid gan y cynghorau cymuned. Mae gan y gwasanaeth ffocws cryf hefyd ar ddatblygiad y tu hwnt i ddarpariaeth. Mae nifer o'r staff sesiynol yn meddu ar gymwysterau deuol (neu'n gweithio tuag at hynny), a chaiff pob aelod o staff gynnig datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar y cyd.

Mae rhai cynghorau cymuned yn ariannu sesiynau chwarae yn ogystal â sesiynau ieuenctid ar gyfer eu hardal. Er enghraifft, yng Nghoedpoeth caiff y rhain eu trosglwyddo fel sesiynau cefn wrth gefn gyda staff cyson, a rennir. Ym Mrychdyn, caiff gwaith chwarae a gwaith ieuenctid eu rhedeg fel sesiynau ar wahân, ar wahanol nosweithiau o'r wythnos, yn seiliedig ar wahanol anghenion yn y gymuned honno, ond yn dal gyda staff a rennir.

## Nodweddion allweddol

- Cyfran fawr o'r trosglwyddo'n cael ei ariannu gan gynghorau cymuned – posibilrwydd bod sesiynau chwarae ac ieuenctid yn cael eu comisiynu gan yr un cyllidwr a'u trosglwyddo gan yr un darparwr, gan wneud aliniad ac addasiadau yn bosibl.
- Tîm o staff profiadol gyda seiliau damcaniaethol cadarn a strwythur staff sy'n canolbwyntio ar ddatblygu yn ogystal â darpariaeth.
- Datblygu llyfryn gwybodaeth a hyfforddiant *Shared Values for the Play Workforce*, sy'n canolbwyntio ar werthoedd ac agweddau cyffredin tuag at blentyndod ar draws gwahanol broffesiynau.

## Buddiannau

- Galluogi'r gwasanaeth i fod yn ymatebol i anghenion plant ym mhob cymuned.
- Caniatáu i staff ffurfio perthnasau o oedran ifanc a darparu cysondeb.
- Meithrin perthynas gryfach gyda'r gymuned ehangach – eiriol dros hawl plant i chwarae ar bob oed a chefnogi amodau mewn cymunedau y tu hwnt i ddarpariaeth wedi ei staffio, er enghraifft datblygu lleoliadau adeiladu llochesi.
- Mwy o gyfleoedd am bartneriaethau mewnol.

## Heriau a dysg

- Gall hunaniaethau proffesiynol cryfion a gwahanol arddulliau greu tensiynau ymysg staff o dro i dro, yn enwedig yn y dyddiau cynnar yn dilyn ail-strwythuro.
- Diffyg hyfforddiant sy'n bodoli eisoes sy'n cefnogi dealltwriaeth gyffredin rhwng gweithwyr chwarae a gweithwyr ieuenctid yn benodol.

# Plant y Cymoedd, Rhondda Cynon Taf – sefydliad trydydd sector bychan

## Cerdyn adroddiad

### Strwythur a chefndir

Mae'r holl weithwyr chwarae a gweithwyr ieuenctid yn rhai sesiynol ac yn rhan o un tîm, a reolir gan un aelod o staff llawn amser. Mae'r tîm yn darparu gwasanaethau amrywiol ar draws y gymuned yn cynnwys sesiynau chwarae mynediad agored, sesiynau gwaith ieuenctid a 'chlwb canol'. Mynychir y clwb canol gan blant deg i dair ar ddeg oed (ond mae'r ystod oedran yn hyblyg yn seiliedig ar angen). Caiff ei staffio gan ddau weithiwr chwarae a dau weithiwr ieuenctid. Mae o leiaf hanner y staff yn meddu ar gymwysterau deuol neu'n gweithio tuag at hyn, a chynigir hyfforddiant DPP yn gyfartal i bob aelod o staff.

Ailgychwynnodd y clwb canol yn 2022 (wedi iddo ddod i ben oherwydd colli cyllid Cymunedau'n Gyntaf). Sicrhawyd cyllid newydd mewn ymateb i angen a ddynodwyd – yn aml iawn, roedd plant yn yr ystod oedran hon wedi gorffen mynychu sesiynau chwarae ond nid oeddent yn teimlo eu bod yn perthyn yn y clwb ieuenctid. Adroddwyd hefyd bod tensiwn rhwng plant yn yr ystod oedran hon a'r gymuned yn gyffredinol.

### Nodweddion allweddol

- Rheolwyr gyda phrofiad mewn gwaith chwarae yn ogystal â gwaith ieuenctid, sy'n cydnabod gwerth gweithio ochr yn ochr, yn ogystal â natur unigryw'r naill a'r llall.
- Parodrwydd arianwyr i gefnogi ymarfer cyfunol a gallu'r sefydliad i ddatgan yr achos ac arddangos yr angen.
- Diwylliant cryf o arsylwi, myfyrio a chynllunio ar y cyd, ac agwedd datblygu cymunedol wedi ei wreiddio o addasu ac ymateb i anghenion.
- Staff, yn fwriadol, yn gweithio'n agos i'w gilydd er mwyn caniatáu dealltwriaeth gyffredin o ymarfer.

### Buddiannau

- Galluogi perthnasau rhwng plant a'r gymuned.
- Caniatáu i'r sefydliad ymateb i anghenion chwarae plant ar wahanol oedrannau a lleihau effaith ambell ymddygiad chwarae ar grwpiau oedrannau eraill.
- Gwell ymarfer, yn cynnwys myfyrio cryfach, gwell dealltwriaeth o anghenion chwarae arddegwyr ac agwedd chwareus, fwy llwyddiannus tuag at ddysg anffurfiol.

### Heriau a dysg

- Mae canfod ariannu hyblyg, tymor hirach, sy'n caniatáu i'r sefydliad gyfaddasu i anghenion y plant a'r gymuned yn y modd yma wastad yn her.
- Canfod amser ar gyfer cyd-hyfforddiant – mae'r staff yn rhai sesiynol gyda swyddi bob dydd eraill ac mae ariannu'r amser ychwanegol yn fater llosg.

# RAY Ceredigion
# – sefydliad trydydd sector bychan

## Cerdyn adroddiad

### Strwythur a chefndir

Mae'n trosglwyddo gwasanaethau amrywiol yn y gymuned, yn cynnwys sesiynau chwarae mynediad agored ar gyfer plant pump oed a throsodd mewn amrywiol leoliadau, ers 2009, yn ogystal â sesiynau chwarae mewn ysgolion cynradd a chlwb ieuenctid ar gyfer arddegwyr un ar ddeg i ddeunaw oed. Mae'r sefydliad hefyd yn rhedeg clwb ieuenctid iau sy'n un atgyfeiriadau'n unig ar gyfer plant chwech i unarddeg oed. Mae'r ddarpariaeth hon yn seiliedig ar chwarae a chaiff ei drosglwyddo gan staff sydd wedi derbyn hyfforddiant gwaith chwarae.

Ceir arweinydd prosiect ar gyfer pob agwedd o drosglwyddiad y sefydliad, mae mwyafrif y staff yn rhai dros dro. Mae nifer o'r staff a gychwynnodd yn gwneud gwaith chwarae wedi symud i rolau eraill o fewn y sefydliad, wrth i ariannu fynd a dod. O ganlyniad, ceir staff sy'n meddu ar hyfforddiant gwaith chwarae trwy'r sefydliad i gyd.

### Nodweddion allweddol

- Gweithlu tra hyfforddedig oherwydd cymhwysedd o fewn y sefydliad i drosglwyddo hyfforddiant gwaith chwarae mewnol.
- Dealltwriaeth ddofn o waith chwarae ar draws y sefydliad cyfan sy'n creu diwylliant cryf o fyfyrio, eiriol dros hawliau plant ac arddull sy'n gosod y person yn y canol, seiliedig ar anghenion tuag at bob gwasanaeth.
- Mae cymhwyster deuol rheolwr y gwasanaeth wedi sicrhau glynu at egwyddorion a dibenion penodol y ddau broffesiwn.

### Buddiannau

- Ymarfer gwell ar draws y sefydliad yn codi o ddiwylliant o fyfyrio sydd wedi ei wreiddio.
- Mae agwedd ac arddull ymyrryd chwareus yn y clwb ieuenctid yn parchu hawl pobl ifanc i fod yn nhw eu hunain, i chwarae gyda hunaniaeth a mynegi eu hunain.
- Mae cymwysterau deuol a dealltwriaeth o'r ddau broffesiwn wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r staff yn eu hymarfer er mwyn ymateb yn well i anghenion y plant.

### Heriau a dysg

- Mae rhwystrau i drosglwyddo'n cynnwys bod dwy set o ofynion hyfforddiant a gofynion cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).
- Mae natur gystadleuol cyllido yn y sector gwirfoddol yn cyfyngu ar y potensial i gydweithio.
- Diffyg cyllid ar gael i dalu am amser staff i fynychu hyfforddiant, all fod yn sylweddol fwy na'u horiau contract wythnosol ar gyfer staff sesiynol.

# Seren in the Community, Caerdydd – sefydliad trydydd sector bychan

## Cerdyn adroddiad

### Strwythur a chefndir

Sefydliad cymunedol bychan, lleol sy'n trosglwyddo sesiynau chwarae mynediad agored mewn parciau a mannau cyhoeddus ers 2016. Mae gan yr holl staff brofiad o weithio gyda grwpiau oedran iau a hŷn, maent i gyd wedi cymhwyso mewn gwaith chwarae, ac yn y gorffennol, cafwyd staff oedd wedi cymhwyso mewn gwaith ieuenctid yn ogystal â gwaith chwarae.

Yn gyffredinol, bydd plant pump i bedair ar ddeg oed (a phlant dan bump oed gaiff eu hebrwng gan oedolyn) yn mynychu'r sesiynau a bydd pawb o blantos bach i arddegwyr i gyd yn cymysgu ac yn chwarae gyda'i gilydd. Mae cyfran sylweddol o'r plant sy'n mynychu yn yr ystod oedran naw i dair ar ddeg oed, ac mae nifer o'r plant hyn wedi tyfu i fyny gyda'r sefydliad, ac wedi mynychu ers yn blant bach. Weithiau, bydd y sefydliad yn trosglwyddo sesiynau penodol ar gyfer plant dros unarddeg oed, gyda gweithgaredd sydd â mwy o ffocws ond sy'n dal yn seiliedig ar chwarae. Mae'r rhain yn ymateb uniongyrchol i anghenion a arsylwyd ymhlith y plant hŷn i chwarae heb blant iau'n bresennol (a'r rheini'n aml yn frodyr neu chwiorydd iau).

### Nodweddion allweddol

- Diwylliant sy'n ymatebol i anghenion plant hŷn – eu hangen am gymorth penodol gyda materion llosg a chyfnodau pontio yn ogystal â'u hangen i chwarae.
- Rhan o bartneriaeth trydydd sector amlddisgyblaethol gref yn yr ardal leol, gyda diwylliant o gydweithredu a chyfeirio.

### Buddiannau

- Cefnogi anghenion plant hŷn i chwarae.
- Darpariaeth all dyfu gyda'r plant ac ateb eu hanghenion newidiol.
- Dysg ac ymarfer cytûn o weithio gyda'i gilydd, er enghraifft mae staff gwaith ieuenctid wedi gallu ymgysylltu gyda phlant hŷn, yn cynnwys profiad o leddfu tensiynau yn y grŵp oedran hwnnw.
- Cynnig gwell ar gyfer plant sydd am ymgysylltu â gweithgareddau mwy strwythuredig, datblygu sgiliau neu gael mynediad i gymorth penodol.

### Heriau a dysg

- Diffyg ac ansicrwydd ariannu i ateb yr anghenion a ddynodwyd.
- Canfod ac ariannu amser staff i gael mynediad i hyfforddiant pellach, er enghraifft cymwysterau gwaith ieuenctid.
- Diffyg gwybodaeth i blant am wasanaethau eraill y gallant symud ymlaen iddynt.
- Myfyrio bod angen, ar draws y sector, i gefnogi cyfnodau pontio o oedran iau, er enghraifft o wyth oed.

# Clybiau Bechgyn a Merched
# – sefydliad trydydd sector cenedlaethol

### Cerdyn adroddiad

## Strwythur a chefndir

Mae Clybiau Bechgyn a Merched Cymru yn sefydliad cenedlaethol gyda hanes maith yng Nghymru. Mae wedi ei ffurfio o 140 o glybiau aelodaeth sy'n trosglwyddo gwaith ieuenctid a chwaraeon ac maent, ar y cyfan, yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae'r sefydliad cenedlaethol hefyd yn trosglwyddo rhaglenni gwaith ieuenctid strategol, penodol gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill, megis cael pobl ifanc i ymgysylltu â gwleidyddiaeth a Taith (rhaglen gyfnewid ryngwladol Cymru ar gyfer dysgu). Ceir llwybrau cadarn ar gyfer arweinyddion ifanc a gweithwyr ieuenctid 'a fagwyd yn lleol'. Mae'r sefydliad cenedlaethol yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc unarddeg i bump ar hugain oed, ond mae pob clwb lleol yn unigryw i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu ac, yn aml, mae'r ystod oedran yn is.

Mae arweinyddion y sefydliad wedi cwblhau hyfforddiant chwarae ac maent yn ymdrechu i wreiddio dealltwriaeth o chwarae ar draws eu gwasanaethau. Trosglwyddir llawer o hyfforddiant yn fewnol, ond mae hyn yn aml yn hyfforddiant anffurfiol er mwyn ymateb i anghenion gwirfoddolwyr cymunedol.

## Nodweddion allweddol

- Arweinyddiaeth sy'n deall ymddygiadau chwarae plant hŷn ac sy'n ymdrechu i wreiddio'r ddealltwriaeth yma ar draws y sefydliad.
- Gallu'r sefydliad i fodloni anghenion dysg grŵp amrywiol o wirfoddolwyr.
- Safle strategol y sefydliad yng Nghymru a dealltwriaeth gref o'r sector yn ei gyfanrwydd.

## Buddiannau

- Mae hyfforddiant chwarae'n golygu bod gan reolwyr well dealltwriaeth o chwarae plant hŷn.
- Agwedd well tuag at risg a her.
- Cynnig ehangach, mwy amrywiol ar gyfer plant er mwyn ateb eu hanghenion yn well.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithredu mewn cymunedau.

## Heriau a dysg

- Diffyg capasiti ymhlith gwirfoddolwyr i allu mynychu hyfforddiant ffurfiol ychwanegol – mae'r baich hyfforddiant yn drwm eisoes.
- Diffyg capasiti staff yn gyffredinol ar draws y trydydd sector sy'n lleihau gallu i wreiddio dysg ar draws y sefydliad.
- Diffyg aliniad rhwng strwythurau hyfforddi, er enghraifft cynnwys ar chwarae a gwaith chwarae mewn cyrsiau gwaith ieuenctid.

## Dadansoddiad thematig

Yn dilyn y dadansoddiad thematig, ymddangosodd dwy thema gyffredinol, trosfwaol. Y thema gyntaf yw buddiannau ac fe'i cefnogir gan dair is-thema:

- Ymateb i anghenion
- Cysondeb
- Croes-beillio.

Yr ail thema yw heriau ac fe'i cefnogir gan dair is-thema:

- Sail athronyddol
- Hyfforddiant
- Ffactorau allanol.

## Buddiannau

Yn ystod y cyfweliadau, roedd y cyfranogwyr, ar y cyfan, yn gefnogol o arddull wedi ei alinio tuag at drosglwyddo gwaith chwarae a gwaith ieuenctid. Yn wir, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn eiriolwyr cryf o blaid yr arddull hwn:

> 'Rwy'n gallu gweld y buddiannau mawr i blant o gael agwedd gyfunol o ran gwaith chwarae a gwaith ieuenctid ... Fe fyddwn i'n cael cynllun chwarae a chlwb ieuenctid ym mhob cymuned gyda'r un aelodau o staff yn eu harwain. Dyna fyddwn i'n anelu i'w gael.'
>
> **Awdurdod lleol**

Roedd y brwdfrydedd yma'n seiliedig ar fuddiannau dull wedi ei alinio tuag at waith ieuenctid a gwaith chwarae yr oeddent wedi bod yn dyst iddynt – buddiannau i blant, teuluoedd a chymunedau, yn ogystal ag i ymarferwyr, sefydliadau a'r sector yn ei gyfanrwydd.

### Ymateb i anghenion

Yn bwysicaf oll, cyfeiriwyd at anghenion plant hŷn i chwarae gan y cyfranogwyr oll, waeth os oedd ganddynt gefndir gwaith ieuenctid neu gefndir gwaith chwarae:

> 'Fe fyddwn i'n dadlau bod pobl ifanc wastad angen mynediad i fod mor ddwl â phosibl.'
>
> **Arweinydd strategol**

Dywedodd y rheini a gyfwelwyd wrthym fod eu hymarfer sydd wedi ei alinio yn caniatáu i staff ddeall ac ymateb yn well i'r anghenion a'r ymddygiadau chwarae hyn. Roedd gwasanaethau wedi eu halinio'n fwy hyblyg a diddorol i blant hŷn o ganlyniad i'r ddealltwriaeth hon.

Dywedodd un cyfranogwr o sefydliad trydydd sector wrthym fod y dull hwn yn caniatáu i glybiau ieuenctid fod yn ofod ble gallai plant hŷn 'chwarae gyda'u hunaniaethau'. I nifer o gyfranogwyr, roedd gwasanaethau wedi eu halinio yn arbennig o dda hefyd wrth ymateb i anghenion plant oedd tua 10 i 13 oed:

> '[Mae'n ymwneud â] chwmpasu'r tir canol yna. Rwy'n teimlo efallai mai dyma elfen fwyaf buddiol cael arddull cyfunol.'
>
> **Sefydliad trydydd sector**

I'r grŵp oedran hwn, cyfeiriwyd yn rheolaidd at y cysyniad o gyfnodau pontio yn ein cyfweliadau – y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, o ddarpariaeth chwarae i glwb ieuenctid, o blentyndod i lasoed. Mewn nifer o achosion, dywedwyd wrthym fod y grŵp oedran hwn, eu hunain, yn adrodd am deimlo'n rhy hen ar gyfer gwasanaethau chwarae ac yn rhy ifanc ar gyfer clwb ieuenctid. Soniodd rhai gwasanaethau iddynt 'golli' plant, boed hynny dim ond dros dro, yn ystod y cyfnod hwn:

> 'fe fydden nhw'n mynd o chwarae i ddim ... ac yna fe fyddech chi'n ei weld ddwy flynedd yn ddiweddarach yn cerdded i mewn i glwb ieuenctid.'
>
> **Sefydliad trydydd sector**

Roedd llawer o'r bobl yn y sefydliadau y siaradom gyda nhw yn hyblyg gydag ystod oedrannau (mewn gwaith chwarae a gwaith ieuenctid hefyd) er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion y grŵp oedran hwn. Roedd gan eraill gymysgedd o staff gwaith chwarae a gwaith ieuenctid ym mhob darpariaeth ac roedd rhai wedi datblygu clwb ieuenctid iau neu glwb canol. Roedd y rhain yn aml yn ymateb uniongyrchol i fynd i'r afael â'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn angen sylweddol nad oedd yn cael ei ddiwallu gan ddarpariaeth gyfredol:

> 'mae cymunedau wedi dod ataf a dweud, allwn ni ddatblygu clwb ieuenctid? Doedden nhw ddim yn siarad am glwb ieuenctid. Roedden nhw'n siarad am glwb ieuenctid iau. A'r ffocws oedd plant. Yn ddiddorol iawn, plant oedd yn pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, oherwydd ei bod yn amlwg bod angen yno.'
>
> **Arweinydd strategol**

Canfuwyd bod gallu ateb anghenion y grŵp oedran hwn yn un o fuddiannau sylweddol arddull wedi ei alinio ac, yn aml, dyma'r prif sbardun.

Yn gysylltiedig â hyn, cafwyd trafodaethau cymysg ynghylch effaith chwarae plant hŷn a arsylwyd ar y rheini sy'n iau ac adroddiadau am blant hŷn (yn enwedig rai tua 14 i 16 oed) oedd ddim am fynychu darpariaeth ochr yn ochr â phlant 10 oed, er enghraifft. Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau hefyd o'r grŵp oedran hwn yn mynychu cynlluniau chwarae'n benodol, er eu bod weithiau'n 'esgus gofalu am frodyr a chwiorydd,' neu'n chwarae'n 'eironig'.

Yn ogystal, myfyriodd un awdurdod lleol o ran darpariaeth gwaith ieuenctid cymunedol y gwelwyd '... newid ers COVID. Mae'r ystod oedran yn iau o lawer' ac nad oedd plant 15 ac 16 oed bellach yn mynychu'n rheolaidd. Cafodd hyn ei briodoli i ddiffyg cysondeb o ganlyniad i'r pandemig.

### Cysondeb (fel oedolion y gellir ymddiried ynddynt)

Adroddodd y cyfranogwyr bod gweithwyr chwarae yn ogystal â gweithwyr ieuenctid yn oedolion allweddol y gellir ymddiried ynddynt ym mywydau plant ac, o ganlyniad, soniwyd bod cysondeb yn un o fuddiannau mawr arddull wedi ei alinio tuag at waith chwarae a gwaith ieuenctid. Mae hyn yn arbennig o wir ble roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu trosglwyddo gan yr un aelodau o staff, un ai fel tîm cymysg neu gyda staff sy'n meddu ar gymwysterau deuol.

> 'Dyna pryd y byddwn ni wir yn gweld y cyfuniad hwnnw o waith chwarae a gwaith ieuenctid yn gweithio.'
>
> **Awdurdod lleol**

Arwyddocâd yr arddull hwn yw ei fod yn caniatáu perthynas llawer hirach a dyfnach gyda phlant yn eu cymuned:

> 'Gall [dilyniant] darpariaeth dyfu mewn ffordd gyda'r plant a'r bobl ifanc.'
>
> **Sefydliad trydydd sector**

I weithwyr chwarae, mae hyn yn golygu eu bod yn gallu cynnal perthynas gyda phlant am gyfnod maith – i fod yn oedolyn gwerthfawr y gallant ymddiried ynddo, ac yn eiriolwr chwareus – o blentyndod cynnar ac ymhell i'w harddegau. I weithwyr ieuenctid, mae'n golygu cael perthynas sy'n bodoli eisoes gyda phlant cyn iddyn nhw hyd yn oed ddechrau mynychu darpariaeth ieuenctid:

> 'Mae'r ffaith bod y ddau wasanaeth wedi dod at ei gilydd yn golygu ein bod yn adnabod rhai o'r bobl ifanc hynny eisoes oherwydd eu bod wedi pontio o chwarae i ieuenctid, mae gennym berthynas gyda'u rhieni ... efallai y byddwn yn gwybod eu bod yn derbyn ymyriadau gan wasanaethau eraill. Mae'n llawer mwy buddiol i'r teuluoedd, y plant, y person ifanc.'
>
> **Awdurdod lleol**

Disgrifiodd y cyfranogwyr pa mor werthfawr y gall y perthnasau hyn fod i blant, ond hefyd i ymarferwyr pan fydd angen sgyrsiau mwy heriol efallai (er enghraifft ynghylch y defnydd o fêps neu iechyd rhywiol):

> ‘gall oedolyn y gellir ymddiried ynddynt fod yn unrhyw un, trwy fod mewn cymunedau, gallu gweithio gyda phlant o oedran iau, mae gennych chi’r berthynas honno … fe fyddan nhw’n ymgysylltu gyda chi os ydyn nhw’n eich adnabod chi. Os nad ydyn nhw’n eich adnabod chi, fyddan nhw ddim yn cael y sgyrsiau hynny gyda chi. Dydyn nhw ddim yn mynd i wrando arnoch chi, nac ydyn?’
>
> **Awdurdod lleol**

Yn ogystal, mae’r perthnasau tymor hirach hyn yn cefnogi datblygiad ymhellach i mewn i wirfoddoli ac, yn nes ymlaen, i rolau cyflogaeth hefyd. Er enghraifft:

> ‘Fe wnaethon ni drefnu cwrs gweithwyr chwarae Lefel 1, ac fe wnaeth rhywfaint o arddegwyr ei fynychu … gan roi hynny’n ôl ar waith yn eu cymuned eu hunain. Felly, plant oedran gwaith ieuenctid yn trosglwyddo gwaith chwarae.’
>
> **Sefydliad trydydd sector**

A chafwyd enghraifft arall gan awdurdod lleol:

> ‘Mae gennym ferch ifanc, person ifanc sy’n aelod o staff bellach, ond fe gychwynnodd hi gyda ni pan oedd hi’n bump oed, yn ein lleoliad chwarae. Ac fe ddechreuodd hi fel plentyn oedd yn derbyn cymorth. Roedd ganddi gymhorthydd un i un. A nawr, mae hi’n un o’n gweithwyr chwarae sesiynol gorau.’
>
> **Awdurdod lleol**

## Croes-beillio

Un o’r buddiannau sylweddol eraill a ddisgrifiwyd gan y cyfranogwyr oedd y gallu i wella ymarfer a dysgu oddi wrth ei gilydd, wnaeth godi o weithwyr chwarae a gweithwyr ieuenctid yn gweithio mewn cymunedau ochr yn ochr â’i gilydd. Disgrifiwyd hyn yn gryno fel croes-beillio gan un sefydliad ble mae gweithwyr chwarae a gweithwyr ieuenctid yn gweithio gyda’i gilydd i drosglwyddo clwb canol, gan drefnu eu hunain yn ffisegol yn y gofod i sicrhau eu bod i gyd yn gallu arsylwi ymarfer ac ymyriadau ei gilydd. Ceir diwylliant cryf o gyd-fyfyrio er mwyn galluogi’r enydau hynny i greu dysg i bawb.

Gwelwyd bod llu o feysydd penodol o ymarfer yn gwella wrth ddefnyddio dull wedi ei alinio. Roedd hyn yn cynnwys cyd-fyfyrio dyfnach, asesu risg-budd cryfach, mwy o weithio strategol gyda chymunedau a gwell ymgysylltiad ar draws gwahanol grwpiau oedran. Disgrifiodd un gweithiwr chwarae gyn-gydweithiwr gwaith ieuenctid:

> ‘Fe wnaethon ni ddysgu llawer oddi wrthi pan ddaeth yn fater o gyfathrebu gyda phobl ifanc, yn hytrach na’r math o gyn-arddegwyr yr oedden ni’n fwy cyfarwydd gyda nhw.’
>
> **Sefydliad trydydd sector**

Roedd cynhwysiant yn faes ymarfer arall oedd wedi ei wella. Dywedodd un cyfranogwr o awdurdod lleol, oedd o gefndir gwaith ieuenctid, wrthym fod gweithio ochr yn ochr â gweithwyr chwarae ‘wir yn gwneud inni feddwl llawer am sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn wasanaeth cynhwysol, ar gyfer plant gydag anghenion ychwanegol’.

Yn ogystal, nododd un cyfranogwr y gall y croes-beillio yma ond digwydd pan fydd gweithwyr chwarae a gweithwyr ieuenctid mewn cysylltiad rheolaidd gyda’i gilydd. Mae mynychder hyn ar draws y sector yn fylchog ac mae hyn yn effeithio ar y lefelau o ddealltwriaeth gyffredin ar draws y proffesiynau:

> ‘os nad ydych chi’n gweld gweithwyr chwarae, dydych chi ddim yn ei weld, efallai na fyddwch chi’n ei ddeall. Felly, rwy’n credu bod mwy o waith y gellid ei wneud ar hyn.’
>
> **Sefydliad trydydd sector**

Mae’r canfyddiadau o’r thema hon yn arddangos bod llu o fuddiannau o fabwysiadu arddull wedi ei alinio tuag at drosglwyddo gwaith chwarae a gwaith ieuenctid, gan gynnwys:

- ymateb i anghenion plant a’u hawl i chwarae trwy gyfnodau pontio ac ymlaen i’r arddegau
- datblygu perthnasau tymor hirach a mwy cyson gyda phlant yn eu cymunedau
- gwella ymarfer trwy ddysg a rennir yn cynnwys arsylwi, myfyrio, risg ac ymarfer cynhwysol.

## Heriau

Dywedodd y sefydliadau y siaradom gyda nhw nad yw gweithredu gan ddefnyddio arddull cyfunol neu wedi ei alinio heb ei heriau. Roedd rhai o'r heriau hyn yn gyffredin i'r gwahanol sefydliadau a gellir eu grwpio'n ddwy is-thema: sail athronyddol a hyfforddiant. Yn ogystal, roedd heriau eraill a amlygwyd sy'n cynrychioli ffactorau allanol.

### Sail athronyddol

Mae gwaith chwarae a gwaith ieuenctid yn broffesiynau gwahanol, gyda gwahanol sylfeini damcaniaethol. Roedd y bobl yn y sefydliadau y siaradom ni â nhw yn trosglwyddo gwasanaethau oedd wedi eu *halinio* ond oedd ddim yn *gyfunedig*, a mynegodd pob un barch tuag at gyfanrwydd pob proffesiwn a'r egwyddorion unigryw sy'n sail iddynt. Roedd gan lawer ymdeimlad cryf o hunaniaeth proffesiynol. Roedd y gwahaniaeth pennaf yn cael ei dynnu rhwng gweithiwr ieuenctid fel addysgwr anffurfiol, oedd yn canolbwyntio mwy ar ddatblygiad personol a chymdeithasol plant, a gweithiwr chwarae'n canolbwyntio mwy ar y plentyn yn chwarae, y broses chwarae a'r plentyn fel y mae 'yn yr ennyd'. O ganlyniad, weithiau, roedd canfyddiad bod gweithwyr ieuenctid yn canolbwyntio mwy ar ddeilliannau a gweithgareddau wedi'u trefnu.

Roedd enghreifftiau o densiynau rhwng staff, yn aml o ganlyniad i wahanol ddehongliadau o, ac ymatebion i, ymddygiad plant. Fodd bynnag, yn aml, mae'n ymddangos bod y tensiynau canfyddedig yn bodoli llai ymysg staff rheng flaen a mwy ar lefel strategol:

> 'Rwy'n credu bod llawer o bobl yn gweithio ar draws y disgyblaethau hyn i gyd, felly maen nhw'n cyflawni'r anghenion ac yn trosglwyddo'r hyn sydd ei angen ar yr adeg honno yn y lleoliad hwnnw … tra gall pobl [ar lefel strategol] fod yn amddiffynnol iawn ynghylch eu harbenigaeth, ie, sydd ddim yn ddefnyddiol.'
>
> **Sefydliad trydydd sector**

Fe wnaeth un cyfranogwr fynegi pryder y gallai alinio effeithio ar natur wahanol y ddau broffesiwn ond eu bod yn teimlo bod dealltwriaeth gyffredin o'r gwahaniaethau pwysig yn allweddol.

Disgrifiodd y mwyafrif o gyfranogwyr ddiffyg dealltwriaeth ehangach o'r ddau broffesiwn – o'u pwrpas ac o'u buddiannau i blant a chymunedau. Roedd y ddau broffesiwn yn cael eu hystyried fel rhai sy'n cael eu 'tanbrisio' neu eu 'camddeall' yn aml. Roedd hyn yn effeithio ar ganfyddiadau allanol, perthnasau cymunedol a chyllid oedd ar gael ond hefyd eu safbwyntiau ei gilydd a'r potensial am aliniad llyfn. Roedd un cyfranogwr yn teimlo bod angen i'r ddau sector:

> 'ei siapio hi, er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn gwybod beth yw chwarae a beth yw gwaith ieuenctid a sut y mae'n gweithredu yn eu hardal leol.'
>
> **Arweinydd strategol**

Er hyn, roedd y cyfranogwyr i gyd yn gallu disgrifio elfennau sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol yn y ddau broffesiwn, yn enwedig o ran:

- yr egwyddor o ymgysylltu gwirfoddol
- cael eu harwain gan y plant
- eiriol dros hawliau plant
- gweithio gyda phlant yn eu cymunedau, yn agos i ble maent yn byw
- bod yn oedolyn y gall y plant ymddiried ynddo
- defnyddio arddull sy'n parchu plant am bwy ydyn nhw a ble maen nhw.

Yn ogystal,

> 'Mae gan waith chwarae a gwaith ieuenctid elfennau cyffredin sylweddol nid fel gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar batholeg plentyndod camweithredol … yr hyn ry'n ni'n siarad amdano yw ei fod yn "ddull galluogrwydd perthynol". Ein bod ni'n creu amgylchedd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i dyfu'n alluog.'
>
> **Arweinydd strategol**[24]

Cyfeiriodd un cyfranogwr, tra bo gwahaniaethau pwysig rhwng y ddau broffesiwn, nid yw'r rhain yn wahaniaethau gaiff eu cydnabod gan y plant eu hunain:

> 'Fydd plant a phobl ifanc sy'n defnyddio neu ddim yn defnyddio cyfleoedd gwaith ieuenctid a chwarae – fyddan nhw'n gweld dim gwahaniaeth o gwbl, yn fy mhrofiad i ... Dydyn nhw wir ddim yn gweld y byd fel y mae oedolion. Felly, dylai'r elfennau sy'n gorgyffwrdd rhwng gwaith chwarae ac ieuenctid o safbwynt y plentyn, yn fy marn i, fod yn ddiasiad.'
>
> **Arweinydd strategol**

Myfyriodd y cyfranogwr hwn bod gwaith chwarae a gwaith ieuenctid yn cael eu hystyried gan y plant fel bod y *ddau* yn wasanaethau ar wahân i broffesiynau eraill gan fod y ffocws arnyn nhw, y plant eu hunain. Arweiniodd y gorgyffwrdd yma i un cyfranogwr awgrymu:

> 'Beth pe bae dealltwriaeth gyffredinol sylfaenol ... o'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Yn y pen draw, rydych chi'n ceisio cefnogi plant i gael gwell cyfleoedd.'
>
> **Sefydliad trydydd sector**

Awgrymwyd yn aml, bod os gall staff lywio trwy'r gwahaniaethau a'r gorgyffyrddiadau hyn yn eu hymarfer:

> 'yn y bôn yn seiliedig ar yr hyfforddiant ... a'r negeseuon y maent yn eu derbyn.'
>
> **Awdurdod lleol**

## Hyfforddiant

Roedd y mwyafrif o gyfranogwyr yn teimlo bod hyfforddiant yn allweddol i aliniad llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn teimlo hefyd bod lle i wella yn y strwythurau hyfforddiant presennol gan nad ydynt yn meithrin cyd-ddealltwriaeth ar draws y ddau broffesiwn. Yn ystod y cyfweliadau, dywedodd cyfranogwyr gydag un ai gefndir mewn gwaith ieuenctid neu gefndir gwaith chwarae eu bod yn gweld gwerth sylweddol mewn gweithwyr ieuenctid yn deall chwarae plant a chwblhau cymwysterau gwaith chwarae:

> 'Rwy'n meddwl bod gwir angen aliniad rhywfaint yn well gyda'r hyfforddiant ... rydych chi angen i'ch gweithwyr ieuenctid sydd â chymhwyster lefel 2 a lefel 3 a gradd i ddeall gwaith chwarae.'
>
> **Sefydliad trydydd sector**

Roedd rhai cyfranogwyr gyda chefndir gwaith ieuenctid wedi cwblhau hyfforddiant gwaith chwarae ac yn teimlo ei fod wedi gwella eu hymarfer. Fel y trafodwyd dan y thema croes-beillio, roedd y meysydd ymarfer i'w gwella'n cynnwys, yn benodol, ddealltwriaeth o anghenion ac ymddygiadau chwarae, risg, arsylwi a myfyrio.

Fodd bynnag, cyfeiriodd llawer o'r sefydliadau trydydd sector at y capasiti anghyraeddadwy oedd ei angen ar gyfer gweithwyr chwarae â chymhwyster lefel 3, er enghraifft i gael mynediad i gyrsiau gwaith ieuenctid lefel 2 a lefel 3 ac i weithwyr ieuenctid cymwysedig gael mynediad i gyrsiau gwaith chwarae. Mae'r staff hyn yn aml yn rhai sesiynol, gydag ymrwymiadau eraill, ac efallai eu bod ond yn cael eu cyflogi am gyn lleied â thair awr yr wythnos:

> 'Mae llawer ohono am ddim. Ond yna, mae rhaid inni ganfod yr oriau fel y lefel 3 gwaith ieuenctid yma ... un diwrnod yr wythnos, mae rhaid imi ganfod yr arian yna i gyd i dalu'r staff i fynychu'r hyfforddiant hwnnw.'
>
> **Sefydliad trydydd sector**

Nid yw canfod y cyllid sydd ei angen ar gyfer hyn, tra'n cynnal trosglwyddiad y gwasanaeth yn bosibl yn aml, ac o ganlyniad:

> 'Lawer o'r amser yn y sector hwn [y trydydd sector], ry'n ni'n gyrru pobl ar gyrsiau ac yn disgwyl iddyn nhw ei wneud yn eu hamser eu hunain ac i beidio cael eu talu, i beidio cael eu talu o gwbl.'
>
> **Sefydliad trydydd sector**

Fe ddaethom ar draws ystod eang o safbwyntiau ar yr agwedd orau tuag at hyfforddiant. Ar un pegwn, oedd y rheini oedd yn teimlo y dylai gwaith ieuenctid a gwaith chwarae (a hyd yn oed gymwysterau gofal plant a chymwysterau eraill) fod yn arbenigaethau o fewn arddull ehangach, mwy cyffredinol tuag at hyfforddiant allai gynnwys datblygiad plant a diogelu fel dysg creiddiol a lleihau ail-adrodd a negeseuon cymysg. Ar y pegwn arall, roedd y rheini oedd yn teimlo y dylai unrhyw un sydd wedi cymhwyso mewn gwaith chwarae, er enghraifft, (hyd yn oed ar lefel 6), os ydynt am drosglwyddo gwaith ieuenctid, ddechrau o'r dechrau (ar lefel 2), er mwyn sicrhau eu bod yn deall elfennau sylfaenol yr hyn sy'n broffesiwn penodol a gwahanol.

Fodd bynnag, fe fynegodd bron bob un o'r cyfranogwyr y siaradom gyda nhw farn sy'n disgyn rhywle rhwng y ddau begwn yma o'r sbectrwm. Disgrifiodd y mwyafrif rhyw fath o 'dir canol' neu safbwynt pragmatig, sy'n cydnabod y gwahaniaethau amlwg a'r gwahanol sylfeini athronyddol, ond sydd yn cydnabod hefyd fuddiannau posibl rhywfaint o alinio mewn hyfforddiant:

'Rwy'n credu bod y brif broblem yn ymwneud â natur neilltuol y ddau ddull, ond 'dyw hynny ddim yn golygu na ellir cynnwys, er enghraifft, fodiwl ar chwarae fel rhan o'r radd gwaith ieuenctid.'

**Arweinydd strategol**

Fe wnaeth rhai gynnig amrywiol fathau o hyfforddiant a chymwysterau trosiannol fyddai, yn benodol, yn pwysleisio elfennau gwahanol yn ogystal ag elfennau gorgyffyrddol yn y ddau broffesiwn:

'Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn, wyddoch chi, os oes pobl yn gweithio ar draws hynny, eu bod yn deall y gwahaniaethau.'

**Arweinydd strategol**

Nododd un o'r cyfranogwyr nad yw'r system hyfforddiant gyfredol yn mynd i'r afael ag aliniad neu groestorfannau ymarfer o gwbl:

'[Mae'r strwythur hyfforddiant cyfredol] yn gofyn [i'r] dysgwr gysylltu'r smotiau eu hunain yn hytrach na chael rhywun i ddweud wrthyn nhw "dyma sut maen nhw'n cyd-blethu".'

**Awdurdod lleol**

## Ffactorau allanol

Dywedodd rhai a gyfwelwyd o'r trydydd sector yn ogystal ag awdurdodau lleol am amrywiol ffactorau allanol sy'n effeithio ar eu hymarfer ac sy'n gwneud trosglwyddiad gwasanaethau wedi eu halinio'n fwy heriol.

Soniwyd bod cyllid yn fater llosg i'r ddau broffesiwn ac i gysondeb y ddarpariaeth mewn cymunedau. Mae blaenoriaethau'r cyllid sydd ar gael 'yn pennu, i raddfa helaeth, y gwaith yr ydych yn ei wneud' (arweinydd strategol) ac i ba raddau y mae gwasanaethau'n cael eu harwain gan ddeilliannau. Tra bo rhai cyfranogwyr yn ystyried y gallai fod problemau gyda cheisio cyllid ar gyfer gwasanaethau wedi eu halinio, wnaeth dim o'r sefydliadau trosglwyddo a gyfwelwyd gennym adrodd am unrhyw drafferthion oedd yn benodol i gyllid ar gyfer gwasanaethau wedi eu halinio. Iddyn nhw, roedd y broses yn galw am 'bledio'r achos' i gyllidwyr, fel gydag unrhyw wasanaeth arall.

Fe wnaeth rhai cyfranogwyr yn y trydydd sector awgrymu amrywiaeth yn y blaenoriaethau a gysylltir i gyllido awdurdodau lleol, sut y maen nhw'n cynnwys partneriaid trydydd sector a'u prosesau comisiynu:

'Erbyn hyn, ry'n ni wedi eu darbwyllo [yr awdurdod lleol] y dylen nhw greu fforwm chwarae ac ieuenctid yn hytrach na fforwm ieuenctid a fforwm chwarae, [gyda dim ond derbynwyr cyllid awdurdod lleol priodol yn cael eu croesawu i bob un] felly ry'n ni wedi llwyddo i ddod â hynny ynghyd oherwydd, wrth gwrs rwy'n meddwl, hyd yn oed os na gewch chi ariannu, mae'n bwysig bod yn yr ystafell i allu cael sgyrsiau.'

**Sefydliad trydydd sector**

Yn yr achos hwn, mae'r sefydliad trydydd sector yn trosglwyddo gwaith chwarae a gwaith ieuenctid mewn modd wedi ei alinio ond yn eu hawdurdod lleol comisiynu, mae'r gwasanaethau hyn yn eistedd mewn dwy adran wahanol. Nododd nifer o gyfranogwyr bod y diffyg aliniad hwn ar lefel awdurdod lleol yn heriol. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn alinio gwasanaethau gwaith chwarae a gwaith ieuenctid, yn cynnwys y ddau y siaradom â nhw, ble mae gwaith chwarae a gwaith ieuenctid yn eistedd yn yr un adran. Awgrymodd rhai o'r cyfranogwyr bod awdurdodau lleol eraill yn ystyried model tebyg i'r dyfodol.

Mae gwaith chwarae a gwaith ieuenctid yn dod o dan wahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru oherwydd eu gwahanol ffocws penodol, fel pwyslais gwaith ieuenctid ar addysg anffurfiol. Fodd bynnag, mae dal gyfleoedd i hyrwyddo mwy o gydlyniad o ran polisi a strategaeth, hyd yn oed gyda'r gwahanu yma:

'Ry'ch chi angen cynnig gwaith chwarae ar gyfer plant ac ry'ch chi angen cynnig gwaith ieuenctid ar gyfer plant. Ac ar lefel polisi, mae angen i'r pethau hynny wneud synnwyr. Mae angen iddo fod yn gynnig cydlynol.'
**Arweinydd strategol**

Er enghraifft:

'ar lefel genedlaethol, 'does bosib y byddai'n gwneud rhywfaint o synnwyr i edrych ar argymhellion yr adolygiad gweinidogol o gyfleoedd chwarae a'r argymhellion gwaith ieuenctid [yn adroddiad terfynol Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru[25]] a dwyn y ddau ynghyd.'
**Arweinydd strategol**

Mae cael dau faes polisi gwahanol yn arwain hefyd at ddwy set wahanol o reoliadau, er enghraifft, efallai y bydd angen i gyflogai gyflawni dwy set o safonau cymwysterau a chofrestru gofynnol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) yn ogystal ag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Yn berthynol i hyn, roedd gwahaniaethau hefyd yng ngraddfeydd cyflog a chytundebau staff, sy'n golygu nad oedd staff bob amser yn gallu cyflenwi ar draws y timau, er bod hyn yn ffordd ddefnyddiol o arsylwi arddull y naill a'r llall ar waith a chefnogi aliniad:

'Pryd bynnag y byddwn yn cyflogi gweithiwr ieuenctid, byddwn wastad yn eu cyflogi hefyd ar gytundeb cyflenwi gwaith chwarae [yn dilyn derbyn eu caniatâd]. Nawr, 'dyw hi ddim yn gweithio'r un fath o ran gwaith chwarae … allwn ni ddim eu rhoi ar gytundeb cyflenwi gweithiwr ieuenctid.'
**Awdurdod lleol**

Yn ogystal, adroddodd rhai cyfranogwyr am ymdeimlad o anghydbwysedd rhwng y ddau broffesiwn, er nad oedd hyn wastad yn mynd i'r un cyfeiriad. Er enghraifft, adroddodd un sefydliad bod staff gwaith ieuenctid ar raddfeydd cyflog sylweddol uwch.

Ar y llaw arall, myfyriodd rhai cyfranogwyr bod gan waith chwarae sail gyfreithiol yn y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae,[26] er nad oedd gan waith ieuenctid, er bod gennym bellach gyfarwyddyd statudol drafft ar gyfer gwaith ieuenctid[27]:

'Hyd yn oed os ydych yn meddwl bod cysylltiadau rhwng y ddau ac y byddai'n fuddiol iddyn nhw ddod ynghyd yn amlach na pheidio; yn gyfreithiol, ble rydym yn sefyll, mae byd o wahaniaeth rhyngom.'
**Arweinydd strategol**

Mae canfyddiadau'r thema hon yn arddangos bod nifer o heriau cyffredin ddaw gydag arddull wedi ei alinio tuag at waith chwarae a gwaith ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys yr heriau i staff o orfod llywio eu ffordd trwy orgyffyrddiadau, croestorfannau ac, yn bwysig iawn, y gwahaniaethau rhwng gwaith chwarae a gwaith ieuenctid a sut y mae'r rhain yn edrych mewn ymarfer bob dydd.

Mae hyfforddiant yn cael ei ystyried fel yr allwedd i oresgyn yr heriau hyn, gan ganiatáu ar gyfer aliniad heb wanhau. Nid oedd strwythurau hyfforddi cyfredol yn cael eu hystyried fel rhai digonol i ateb yr heriau hyn a meithrin dealltwriaeth gytûn.

Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn hollt ynghylch yr arddull gorau. Mae problemau gyda staff sesiynol yn cael mynediad i gyrsiau hyfforddiant lluosog ac nid oes unrhyw hyfforddiant cyfredol sy'n delio, yn benodol, gyda gorgyffyrddiadau a gwahaniaethau'r ddau broffesiwn.

Ceir hefyd heriau eraill i wasanaethau wedi eu halinio, sy'n codi'n bennaf o ddiffyg aliniad strategol a pholisi yn yr awdurdodau lleol yn ogystal ag yn Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, y ddwy set o ofynion cofrestru a dau weinidog gwahanol yn y llywodraeth neu swyddogion llywodraeth leol. Tra gallai hyn fod yn ganlyniad cael dau broffesiwn penodol, roedd galwadau am i hyn fod o leiaf yn fwy cydlynol.



# Casgliad

Mae'r ymchwil hwn wedi arddangos bod enghreifftiau o aliniad mewn ymarfer gwaith ieuenctid a gwaith chwarae ar hyd a lled Cymru, a hynny mewn sefydliadau trydydd sector yn ogystal ag awdurdodau lleol. Mae'r rhain i gyd yn ganlyniad sefydliadau'n ymateb i anghenion y plant y maent yn gweithio gyda nhw. Mae llawer o bobl broffesiynol yn gweithio ar draws y sectorau hyn gyda chymwysterau a phrofiad yn y ddau faes, o staff sesiynol i fyny at arweinyddion strategol. Roedd yr ymarferwyr y siaradom â nhw'n eiriolwyr brwd dros y buddiannau y gall yr arddull aliniedig hwn eu creu, yn benodol:

- ymarfer gwell, yn benodol wrth fyfyrio, risg, perthnasau cymunedol ehangach ac ymarfer cynhwysol
- perthnasau llawn ymddiriedaeth tymor hirach gyda phlant a chymunedau
- bod yn fwy ymatebol i anghenion plant, yn enwedig plant hŷn a rhai sy'n mynd trwy gyfnodau pontio.

Er y lefelau o ymarfer wedi ei alinio sy'n digwydd, nid yw hyn yn cael ei gefnogi gan lefelau cyfatebol o aliniad mewn strwythurau hyfforddiant neu ddatblygu'r gweithlu ac mae rhwystrau sylweddol i weld staff rheng flaen yn cwblhau cymwysterau deuol. Mae diffyg 'proffil' a dealltwriaeth gyffredin o'r ddau broffesiwn, ynddo'i hun, yn rhwystr i gydweithrediad ac aliniad. Ceir diffyg aliniad hefyd ar lefel strategol neu bolisi, ble mae angen o leiaf fwy o gydlyniad i gefnogi'r math o ymarfer a ddisgrifir yn yr enghreifftiau hyn.

Mae elfennau sy'n gorgyffwrdd yn sylfeini athronyddol gwaith chwarae a gwaith ieuenctid, ond mae gwahaniaethau sylweddol i'w mynegi hefyd. Roedd parch cyffredinol i natur unigol y ddau broffesiwn ac roedd dealltwriaeth o'u gorgyffyrddiadau a'u gwahaniaethau'n allweddol i aliniad llwyddiannus. Nid yw'r ddealltwriaeth hon i'w gweld, ar hyn o bryd, mewn hyfforddiant ar gyfer yr un o'r ddau broffesiwn er gwaethaf nifer o enghreifftiau o bobl broffesiynol yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd fel hyn.

Dywedodd gweithwyr ieuenctid wrthym fod dealltwriaeth o chwarae a gwaith chwarae wedi eu gwneud yn weithwyr ieuenctid gwell a bod dysg sylweddol o arsylwi eu hymarfer ei gilydd, ond nid oes modd, ar hyn o bryd, i rannu'n helaeth ddysg sy'n digwydd yn y croestoriadau ymarfer hyn.

Mae'r ffactorau hyn, wrth gwrs, yn cael eu heffeithio gan ddatblygiadau ehangach ar draws y ddau sector ac mae nifer o gyfleoedd i wella ymarfer yn bodoli ar hyn o bryd, yn cynnwys:

- gwaith Grŵp Cyfranogiad Gweithredu Datblygu'r Gweithlu y Strategaeth Gwaith Ieuenctid (ac ETS ar ddatblygiad Cynllun Datblygu'r Gweithlu ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru a Chynlluniau Gweithredu blynyddol cysylltiedig).[28]
- cyhoeddi fframwaith statudol ddrafft newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru sy'n gofyn i awdurdodau lleol gynhyrchu 'cynllun strategol gwaith ieuenctid ... a ddatblygir drwy ymgynghori â'r bobl ifanc yn eu hardal, awdurdodau lleol eraill, partneriaid statudol a sefydliadau gwirfoddol'.[29]
- gwaith grŵp ymgynghorol sy'n cael ei sefydlu i edrych ar rôl y corff cenedlaethol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid, yn cynnwys sut all hyn feithrin mwy o gydweithredu a chynyddu proffil a dealltwriaeth am waith ieuenctid fel proffesiwn penodol.[30]
- ymrwymiad Llywodraeth Cymru i argymhelliad 1 yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, i 'fabwysiadu agwedd strategol tuag at ddigonolrwydd chwarae ar draws holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru'[31] – gan dderbyn yr angen am 'well cydweithrediad ar draws y sectorau gwaith ieuenctid a gwaith chwarae ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol' ac i sicrhau bod 'aliniad polisi ar lefel leol yn cael ei gefnogi'n well'.[32]
- cynlluniau Llywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad o gynnydd yn erbyn dyletswyddau statudol digonolrwydd chwarae, 'Bydd hyn yn helpu i lywio ymchwilio i waith posib i ddatblygu Siarter Chwarae ac awgrym Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae i ehangu cwmpas y ddyletswydd statudol'.[33]

Mae'r rhain i gyd yn cynrychioli cyfleoedd i greu cydlyniad ar lefel strategol a pholisi yn ogystal ag mewn hyfforddiant. Mae cyfranogwyr yr ymchwil hwn wedi galw am achub ar y cyfleoedd hyn cyn gynted â bo modd er mwyn creu 'amgylchedd sy'n caniatáu i [waith] chwarae a gwaith ieuenctid ... ffynnu gyda'i gilydd' (arweinydd strategol) ac i 'bobl gydnabod bod y synergeddau wir yn gweithio' (arweinydd strategol).

# Argymhellion

**Yn dilyn yr ymchwil hwn, rydym ni, yr ymchwilwyr, yn argymell:**

- y dylai arweinyddion strategol yn y sector gynhyrchu datganiad sefyllfa ar y cyd ar fuddiannau alinio ymarfer gwaith chwarae a gwaith ieuenctid ac ystyried datblygu strategaeth ar y cyd i gefnogi arfer da.
- y dylai pob sefydliad gwaith ieuenctid a gwaith chwarae ystyried buddiannau ymarfer wedi ei alinio, cyd-hyfforddiant a chymhwysedd deuol staff, ar gyfer y plant y maent yn gweithio gyda nhw.
- y dylai darparwyr hyfforddiant, Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) ac ETS Cymru Wales ystyried ffyrdd i ymgorffori dealltwriaeth sylfaenol o chwarae a gwaith chwarae mewn cymwysterau gwaith ieuenctid a dealltwriaeth sylfaenol o waith ieuenctid mewn cymwysterau gwaith chwarae.
- y dylai darparwyr hyfforddiant, PETC Cymru, ETS Cymru Wales a Grŵp Cyfranogiad Gweithredu Datblygu'r Gweithlu y Strategaeth Gwaith Ieuenctid ystyried datblygu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer gweithwyr chwarae a gweithwyr ieuenctid sy'n edrych yn benodol ar y gorgyffyrddiadau a'r gwahaniaethau rhwng y ddau broffesiwn ac enghreifftiau o aliniad ar waith.
- y dylai Llywodraeth Cymru, a'r grŵp cynghori sy'n cael ei sefydlu i edrych ar rôl y corff cenedlaethol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid, ystyried rôl posibl i'r corff hwnnw weithio gyda'r sector gwaith chwarae er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin ac arfer da ymhellach.

# Cyfeiriadau


[1] Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2023) *Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae – adroddiad terfynol*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[2] Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae (2005) Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, Caerdydd: Chwarae Cymru.

[3] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) *The United Nations Convention on the Rights of the Child*, Genefa: Y Cenhedloedd Unedig.

[4] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) *General Comment 17 on the Right of the Child to Rest, Leisure, Play, Recreational Activities, Cultural Life and the Arts (art. 31)*, Genefa: Y Cenhedloedd Unedig.

[5] Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2018) *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a dibenion*, Caerdydd: Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

[6] Davies, B. (2005) Youth Work: A Manifesto for our Times, *Youth & Policy*, 88, Haf, td. 7-27.

[7] Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru (2021) *Mae'n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru: Sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[8] Llywodraeth Cymru (2024) *Gwaith ieuenctid yng Nghymru: Cyflawni dros bobl ifanc (canllawiau drafft)*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[9] Ibid.

[10] Gweler er enghraifft: Jeffs, T. (2022) The Youth Work Myth, *Youth and Policy*; Edwards, J. (2021) *'It's where we send the naughty kids': A comparative analysis of youth worker and teacher perceptions of each other, in five secondary school settings in Wales*, traethawd estynedig MA heb ei gyhoeddi: Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Turnbull, G. (2024) An Age of Uncertainty, *Youth and Policy;* Wood, A. (2018) *How youth workers can go the extra mile for play,* The Playwork Foundation.

[11] *Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae – adroddiad terfynol.*

[12] Ibid.

[13] *Mae'n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru: Sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.*

[14] *Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae – adroddiad terfynol.*

[15] Barclay, M. (2019) *Mae plant hŷn yn chwarae hefyd*, Caerdydd: Chwarae Cymru.

[16] Llywodraeth Cymru (2025a) *Cymru Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[17] *Mae'n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru: Sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.*

[18] Neagle, L. (2025) Corff cenedlaethol a fframwaith statudol ar gyfer gwaith ieuenctid, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, datganiad ysgrifenedig, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[19] Denzin, N.K. a Lincoln, Y.S. (2017) *The SAGE Handbook of Qualitative Research*, Thousand Oaks: Sage Publications.

[20] Ibid.

[21] *Mae plant hŷn yn chwarae hefyd.*

[22] Braun, V. a Clarke, V. (2021) *Thematic Analysis: A practical guide*, Caerdydd: Sage Publications.

[23] Braun, B. a Clarke, V. (2006) Using thematic analysis in psychology, *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), td. 77-101.

[24] Yn dyfynnu Russell, W., Barclay, M. a Tawil, B. (2025) A proposal for a relational capability approach to playing and being well: Towards more just material discursive practices, *International Journal of Play, 14*(2), td. 242-257.

[25] *Mae'n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru: Sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.*

[26] *Cymru Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae.*

[27] *Gwaith ieuenctid yng Nghymru: Cyflawni dros bobl ifanc (canllawiau drafft).*

[28] Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru (2024) *The workforce development plan for the youth work sector in Wales,* ETS Cymru.

[29] *Gwaith ieuenctid yng Nghymru: Cyflawni dros bobl ifanc (canllawiau drafft).*

[30] Corff cenedlaethol a fframwaith statudol ar gyfer gwaith ieuenctid, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, datganiad ysgrifenedig.

[31] *Yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae – adroddiad terfynol.*

[32] Llywodraeth Cymru (2023) *Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i argymhellion y grŵp llywio annibynnol yn adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror 2023*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[33] Llywodraeth Cymru (2025b) *Adroddiad cynnydd ar yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae: Chwefror 2025*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.



Chwarae Cymru
Play Wales

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**Awduron: Alex Drury a'r Athro Mandy Robbins**

ISBN: 978-1-914361-27-2

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen gofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru Hydref 2025